Darparu triniaeth gofal croen wyneb

Trosolwg

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gwella a chynnal cyflwr croen yr wyneb gan ddefnyddio triniaethau amrywiol. Mae'r triniaethau hyn yn cynnwys: digennu'r croen, cynhesu'r croen, tynnu pennau duon, tylino'r wyneb a thriniaethau masg. Bydd angen i chi allu darparu triniaethau o'r fath i ystod o gleientiaid â gwahanol fathau o groen a chyflwr croen, yn ogystal â'r gallu i ddarparu cyngor perthnasol ar ôl y driniaeth.

Er mwyn cyflawni'r safon hon bydd angen i chi gynnal iechyd, diogelwch a hylendid trwy gydol eich gwaith. Bydd angen i chi hefyd gynnal ymddangosiad personol proffesiynol a dangos sgiliau cyfathrebu da.

Prif ganlyniadau'r safon hon yw:

1. cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth wella a chynnal cyflwr croen wyneb

2. ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau gofal croen wyneb

3. gwella a chynnal cyflwr y croen

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Cynnal dulliau gweithio diogel ac effeithiol wrth gynorthwyo gyda thriniaethau i'r wyneb**

1. cynnal eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch trwy gydol y driniaeth

2. paratoi eich cleient a'ch hun er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol a'r diwydiant

3. sicrhau gwedduster a phreifatrwydd eich cleient

4. gosod eich cleient mewn safle i fodloni gofynion y driniaeth

5. sicrhau bod eich ystum a'ch dulliau gwaith eich hun yn isafu ar y risg o anaf i chi'ch hun ac eraill

6. sicrhau bod yr amodau amgylcheddol yn addas ar gyfer y cleient a'r driniaeth

7. sicrhau bod eich ardal waith yn lân a thaclus drwy'r driniaeth

8. defnyddio dulliau gweithio sy'n lleihau'r risg o groes-heintio

9. sicrhau eich bod yn defnyddio offer a deunyddiau glan

10. hyrwyddo arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy

11. dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a'r cyflenwyr neu gynhyrchwyr ar gyfer defnyddio offer, deunyddiau a chynnyrch yn ddiogel.

12. cael gwared ar ddeunyddiau gwastraff yn ôl gofynion y gyfraith

13. cynnal y driniaeth o fewn amser sy'n ymarferol yn fasnachol

Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau wyneb**

14. defnyddio **technegau ymgynghori** i bennu cynllun triniaeth y cleient

15. sicrhau caniatâd wedi'i lofnodi gan riant neu warcheidwad cyn trin plentyn

16. sicrhau bod rhiant neu warcheidwad yn bresennol trwy gydol y gwasanaeth ar gyfer plant sy'n iau na 16 oed

17.adnabod unrhyw wrtharwyddion a chymryd y **camau angenrheidiol**

18. cytuno ar driniaeth a chanlyniadau sy'n bodloni anghenion y cleient

19. sicrhau caniatâd gwybodus, wedi'i lofnodi gan y cleient cyn unrhyw driniaeth

20. glanhau croen y cleient a chynnal dadansoddiad croen ar y cleient a chofnodi'r **math o groen** a **chyflwr y croen**

21. dewis **cynnyrch wyneb** ac **offer** ar gyfer **math o groen** a **chyflwr croen** y cleient

Cynnal triniaethau i'r wyneb**

22. defnyddio **cynnyrch wyneb** ac **offer** yn seiliedig ar ganlyniadau'r dadansoddiad croen

23. glanhau'r croen a chael gwared ar unrhyw olion o golur

24. defnyddio cynnyrch a thechnegau digennu sy'n addas ar gyfer **math o groen** a **chyflwr croen** y cleient

25. defnyddio techneg cynhesu'r croen i fodloni gofynion y cleient

26. cynnal techneg tynnu pennau duon gan sicrhau'r anghysur lleiaf a'r niwed lleiaf i'r croen

27. defnyddio ac addasu **technegau tylino** i fodloni anghenion y cleient a chytuno ar gynllun triniaeth

28. defnyddio a thynnu triniaethau masg heb unrhyw anghysur i'r cleient a gadael y croen yn lân, wedi'i dynhau ac wedi'i leithio

29. sicrhau bod y cleient yn fodlon â'r canlyniad gorffenedig a'u bod yn fodlon â'r cynllun triniaeth

30. rhoi **cyngor ac argymhellion** i'ch cleient ar y driniaeth a ddarparwyd

31. sicrhau bod cofnodion y cleient yn cael eu llanw a'u llofnodi gan y cleient a chi

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth gynorthwyo gyda thriniaethau i'r wyneb**

1. eich cyfrifoldebau dros **iechyd a diogelwch** fel y diffinnir gan

unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n berthnasol i'ch swydd

2. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer diogelu a pharatoi cleientiaid

3. eich cyfrifoldebau dros gynnal eich hylendid, amddiffyniad ac ymddangosiad personol eich hun yn unol â gofynion cyfreithiol a gofyniad y sefydliad

4.y rhesymau dros gynnal gwedduster a phreifatrwydd y cleient

5. technegau gosod y cleient a chithau yn ddiogel er mwyn osgoi anghysur

6. yr amodau amgylcheddol sy'n angenrheidiol ar gyfer triniaethau a pham mae'r rhain yn bwysig

7. pam ei bod yn bwysig cadw eich ardal waith yn lân a thaclus

8. dulliau glanhau, diheintio a sterileiddio

9. dulliau gweithio'n ddiogel a hylan er mwyn osgoi croes-heintio

10. y gwahanol fathau o ddulliau gwaith sy'n hyrwyddo **arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy**

11. y peryglon a'r risgiau sy'n bodoli yn eich gweithle a'r arferion gweithio'n ddiogel y mae'n rhaid i chi eu dilyn

12. y cyfarwyddiadau gan gyflenwyr neu gynhyrchwyr y mae'n rhaid i chi eu dilyn ar ddefnyddio offer, deunyddiau a chynnyrch yn ddiogel

13. y gofynion cyfreithiol ar gael gwared â gwastraff

14. y rhesymau dros gwblhau'r driniaeth o fewn amser sy'n ymarferol yn fasnachol

Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau i'r wyneb**

15. pam ei bod yn bwysig cyfathrebu gyda chleientiaid mewn dull proffesiynol

16. sut i gwblhau ymgynghoriad gan ystyried **anghenion amrywiol** y cleient

17. y gofynion cyfreithiol ar gyfer darparu triniaeth i blant sy'n iau na 16 oed

18. yr oedran y mae unigolyn yn cael ei ystyried yn blentyn a sut mae hyn yn amrywio'n genedlaethol

19. pwysigrwydd cytuno ar driniaeth sy'n bodloni anghenion y cleient

20. arwyddocâd cyfreithiol sicrhau caniatâd gwybodus wedi'i lofnodi gan y cleient cyn derbyn triniaeth

21. y gofynion deddfwriaethol ar gyfer storio a diogelu data cleientiaid

22. y **gwrtharwyddion sy'n galw am atgyfeiriad meddygol** a pham

23. sut i adnabod y **gwrtharwyddion a fyddai'n atal neu'n cyfyngu** ar driniaeth

24. y camau angenrheidiol mewn cysylltiad â gwrtharwyddion penodol wrth atgyfeirio cleientiaid

25. y rhesymau dros beidio enwi gwrtharwyddion penodol wrth atgyfeirio cleientiaid

26. sut i adnabod gwahanol fathau o groen a chyflyrau croen wrth gynnal dadansoddiad croen

27. y meini prawf ar gyfer dewis cynnyrch ac offer sy'n addas i fath o groen a chyflwr croen cleientiaid

Cynnal triniaethau i'r wyneb**

28. gwahanol fathau o gynnyrch ac offer sydd ar gael ar gyfer triniaethau gofal wyneb a sut i'w defnyddio

29. y gwahanol fathau o gynnyrch croen arbenigol a sut i'w defnyddio

30.y rhesymau a'r buddion dros lanhau, tynhau a lleithio'r croen

31. y gwahanol fathau o ddulliau cynhesu'r croen a'u heffeithiau

32. y dulliau gwahanol a ddefnyddir i dynnu pennau duon yn ddiogel o'r croen

33. y gwahanol fathau o dechnegau tylino a'u heffeithiau

34. sut i addasu technegau tylino ar gyfer gwahanol fathau o groen a chyflyrau croen gwahanol

35. y gwahanol fathau o driniaethau masg a'u heffeithiau

36. y dulliau gwahanol o roi a thynnu triniaethau masg

37. **anatomi a ffisioleg** yr wyneb a'r gwddf

38. sut mae ffactorau amgylcheddol a ffordd o fyw yn effeithio ar gyflwr y croen

39. sut mae'r broses heneiddio naturiol yn effeithio ar groen yr wyneb a thôn y cyhyrau

40. y gwrtharwyddion posibl a allai ddigwydd, sut i ddelio â hwy a'r cyngor i'w roi i gleientiaid

41. y **cyngor a'r argymhellion** ar y cynnyrch a'r triniaethau

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Technegau ymgynghori**

1. holi

2. gwrando

3. edrych

4. teimlo

5. ysgrifenedig

Camau angenrheidiol**

1. annog y cleient i ofyn am gyngor meddygol

2. esbonio pam na ellir cynnal y driniaeth

3. addasu'r driniaeth

Math o groen**

1. olewog

2. sych

3. cyfuniad

Cyflwr y croen**

1. sensitif

2. aeddfed

3. dadhydredig

4. ifanc

Cynnyrch y wyneb**

1. hylif tynnu colur llygaid

2. glanhawyr

3. tynhawyr

4. digennwyr

5. lleithyddion

6. cynnyrch croen arbenigol

7. cyfrwng tylino

8. masgiau

Offer**

1. golau chwyddo

2. dyfeisiau cynhesu'r croen

Technegau tylino**

1. effleurage

2. petrissage

3. tapio

4. ffrithiant

5. dirgrynu

Cyngor ac argymhellion**

1. cynnyrch ôl-ofal addas a'u defnydd

2. osgoi gweithgareddau a allai achosi adweithiau

3. y cyfnodau a argymhellir rhwng triniaethau

4. cynnyrch a thriniaethau yn awr ac yn y dyfodol

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Iechyd a diogelwch**

1. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

2. Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR)

3. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)

4. Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)

5. Rheoliadau Gweithredoedd Codi a Chario

6. Rheoliadau Rheoli Sylweddau peryglus i Iechyd (COSHH)

7. Rheoliadau Trydan yn y Gweithle

8. Deddf Diogelu'r Amgylchedd

9. Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

10. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Gyflogeion)

Arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy**

1. lleihau gwastraff a rheoli gwastraff (ailgylchu, ailddefnyddio, gwaredu diogel)

2. lleihau'r defnydd ynni (offer ynni effeithlon, goleuadau ynni isel, defnyddio paneli solar)

3. lleihau'r defnydd o ddŵr ac adnoddau eraill

4. atal llygredd

5. defnyddio eitemau untro

6. defnyddio dodrefn ecogyfeillgar, wedi'u hailgylchu

7. defnyddio paent â lefelau isel o gemegau

8. defnyddio cynnyrch organig gwrth-alergedd

9. defnyddio deunydd pecynnu sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd

10. dewis cynnyrch domestig cyfrifol (te a choffi Masnach Deg)

11. annog teithiau lleihau carbon i'r gwaith

Anghenion amrywiol**

1. diwylliannol

2. crefyddol

3. oedran

4. anabledd

5. rhyw

Gwrtharwyddion sy'n galw am atgyfeiriad meddygol**

1. haint bacteriol – impetigo

2. haint feirol – crachen annwyd

3. haint ffwngaidd - tinea

4. cyflyrau meddygol systemig

5. llid yr amrannau

6. cyflyrau croen difrifol

7. heintiau llygaid

8. acne

9. plorod

10. yr eryr a dafadennau

11. haint parasitedd yn cynnwys pla llau a sgabies

Gwrtharwyddion a fyddai'n atal neu'n cyfyngu**

1. meinwe craith ddiweddar

2. ecsema

3. psorïasis

4. hyperkeratosis

5. alergeddau croen

6. briwiau

7. crafiadau

8. cleisiau

9. llefrithod/llefelod

Anatomi a ffisioleg**

1. strwythur a swyddogaethau'r croen

2. gweithredoedd cyhyrau'r wyneb, gwddw a'r ysgwyddau, yn cynnwys y frontlais, y crychwr, temporalis, orbicularis oculi, levators labii y wefus uchaf, orbicularis oris, cyhyr boch, risorius, mentalis, zygomaticus, masseter, cyhyryn gostyngol y wefus isaf, sternocleidomastoid, platysma, trapezius, pectoralis a deltoid

3. esgyrn y pen, gwddw a gwregys yr ysgwyddau, yn cynnwys:

a – ar gyfer y penglog: y gwegil, talcennol, parwydol, arleisiol, asgwrn sffenoid, ethmoidol

b - ar gyfer y wyneb: sygomatig, gên, maxillae, trwyn, fomer, cogwrn, lacrimal, asgwrn y daflod

c – ar gyfer y gwddw: asgwrn cefn serfigol

ch – ar gyfer gwregys yr ysgwyddau: pont yr ysgwydd, asgwrn y balfais, asgwrn y fraich

d – ar gyfer y frest: sternwm

4. ystum esgyrn y pen, wyneb, gwddw, y frest a'r ysgwyddau

5. ystum cyhyrau'r pen, wyneb, gwddw ac ysgwyddau

6. cyfansoddiad a swyddogaeth y gwaed a'r lymff a'u rôl yn gwella cyflyrau'r croen a'r cyhyrau

**

Cyngor ac argymhellion**

1. gwasanaethu ychwanegol

2. cynnyrch ychwanegol

3. cynnyrch at ddefnydd y cartref a fydd o fudd i'r cleient a'r rheini i'w hosgoi a pham

4. yr adweithiau a allai ddigwydd ar ôl triniaethau wyneb a pha gyngor i'w roi i gleientiaid

5. y cyfnodau a argymhellir rhwng triniaethau i'r wyneb

Gwerthoedd

Mae'r gwerthoedd allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. parodrwydd i ddysgu
2. agwedd gweithio hyblyg
3. gweithiwr tîm
4. agwedd bositif
5. moeseg bersonol a phroffesiynol

Ymddygiadau

Mae'r ymddygiad a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba. Mae'r ymddygiad hwn yn sicrhau bod cleientiaid yn cael argraff gadarnhaol o'r sefydliad a'r unigolyn

1. bodloni safonau ymddygiad y sefydliad
2. cyfarch y cleient yn barchus ac mewn modd cyfeillgar
3. cyfathrebu gyda'r cleient mewn ffordd sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu
4. trin y cleient yn gwrtais ac yn wasanaethgar bob amser
5. addasu'r ymddygiad i ymateb yn effeithiol i wahanol ymddygiad gan y cleient
6. gwirio gyda'r cleient eich bod chi wedi deall eu disgwyliadau yn llawn
7. ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol i gwestiynau a sylwadau'r cleient
8. adnabod gwybodaeth y gallai'r cleient ei chael yn gymhleth a gwirio a ydynt wedi deall yn llawn
9. bodloni safonau ymddangosiad y sefydliad a'r diwydiant.

Sgiliau

Mae'r sgiliau allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. y gallu i hunan-reoli
2. cyfathrebu llafar a dieiriau gwych
3. defnyddio'r ffyrdd mwyaf priodol o gyfathrebu gyda chleient
4. ymateb yn brydlon i gleient sy'n gofyn am gymorth
5. canfod gwybodaeth yn gyflym a fydd o gymorth i'r cleient
6. rhoi gwybodaeth y mae ei hangen ar gleient am wasanaethau a chynnyrch a gynigir gan y sefydliad

Geirfa

Adweithiau**

Adweithiau negyddol i'r driniaeth neu gynnyrch megis cochni gormodol neu adweithiau alergaidd.

Gwrtharwyddion**

Amodau neu gyfyngiadau sy'n nodi na ddylid cynnal gwasanaeth penodol.

Digennu**

Cael gwared ar gelloedd arwyneb y croen.

Triniaethau masg**

Y rhai sy'n caledu (yn cynnwys clai, thermol, paraffin a geloids). Y rhai nad ydynt yn caledu (yn cynnwys geliau a hufenau).

Dyfeisiau cynhesu'r croen**

Gall y rhain gynnwys stemwyr, tyweli poeth, cwpwrdd tyweli poeth.

Cynnyrch croen arbenigol**

Mae'r rhain yn cynnwys hufenau llygaid, geliau llygaid, hufenau gwddw, serwm, cynnyrch acne, balm gwefus

Pennau duon**

Mae pennau duon i'w gweld yn aml ar yr wyneb o amgylch y t-barth. Mae ceratin yn cyfuno gydag olewau a bacteria i greu rhwystr i ffoligl blew'r croendwll, sydd â 'phen du'. Gellir tynnu pennu duon o'r croen gyda dyfais tynnu pennau duon.

SKABT4

Darparu triniaeth gofal croen wyneb

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	01 Ion 2015
Dyddiad Adolygu Dangosol	29 Ebr 2020
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKAB4
Galwedigaethau perthnasol	Therapydd Harddwch, Therapydd Sba, Arbenigwr Gofal Croen Wyneb
Cyfres/Set	Therapi Harddwch, Therapi Sba
Geiriau Allweddol	triniaethau wyneb; triniaeth i'r wyneb; gofal croen wyneb